Rhif: WG322274

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynllun Gweithredu Drafft Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd

Awst 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-78903-897-2

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Pwrpas yr ymgynghoriad

Bwriad yr ymgynghoriad a ddechreuodd ar 20 Tachwedd 2017 ac a ddaeth i ben ar 21 Chwefror 2018 oedd casglu barn am gynllun gweithredu drafft Cymru i reoli'r wiwer lwyd.

Mae'r wiwer lwyd yn rhywogaeth estron oresgynnol o bwys sydd wedi lledaenu'n helaeth yng Nghymru, ac mae'n effeithio'n andwyol ar boblogaethau'r wiwer goch, ac ar goetiroedd a'r buddion sy'n gysylltiedig â nhw. O dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n anghyfreithlon rhyddhau gwiwer lwyd i'r gwyllt neu ganiatáu iddi ddianc, hyd yn oed os cafodd ei chaethiwo am resymau lles.

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru (2018), yn parhau i ymrwymo i helpu i fynd i'r afael â bygythiadau rhywogaethau estron goresgynnol, gan gynnwys y wiwer lwyd, drwy ddull strategol wedi'i dargedu. Yn unol ag erthygl 19 o Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yr UE[1], mae hefyd yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith i ddileu'r rhywogaethau a restrir, eu rheoli neu'u hatal rhag lledaenu. Mae'r wiwer lwyd wedi'i chynnwys yn y rhestr gyntaf o rywogaethau sy'n peri pryder i'r Undeb a ddaeth i rym ar 3 Awst 2016.

Roedd y cynllun drafft yn amlinellu'r dystiolaeth sydd ar gael o effaith y wiwer lwyd ar fioamrywiaeth, coetiroedd a newid hinsawdd. Roedd yn cynnig dull strategol o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd, ynghyd â'r cyfyngiadau a'r opsiynau rheoli – angheuol ac amgen – i wneud hynny. Roedd hefyd yn nodi'r camau gweithredu drafft y byddai modd eu cyflawni drwy bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i hybu ac i hwyluso'r gwaith o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd.

**Nid** oedd yn cynnig difa'r wiwer lwyd ledled Cymru na'i dileu o Gymru. Ni fyddai'n ymarferol nac yn fforddiadwy gwneud hynny o ystyried maint poblogaeth y wiwer lwyd.

### 1.2 Y cyfnod ymgynghori a dosbarthu'r ddogfen ymgynghori

Lluniwyd y cynllun drafft ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gyda chymorth gweithgor o randdeiliaid. Ym mis Gorffennaf 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy i roi cyfle i ystod ehangach o randdeiliaid gyfrannu at y gwaith o lunio'r cynllun drafft cyn mynd ati i ymgynghori arno.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y cynllun gweithredu drafft i reoli'r wiwer lwyd ar 20 Tachwedd 2017, gan bara 13 wythnos. Roedd y ddogfen ymgynghori a chrynodeb o weithdy'r rhanddeiliaid ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru, ac anfonwyd e-bost at ystod eang o randdeiliaid a chyrff â diddordeb i'w gwahodd i ymateb. Daeth ymatebion i law drwy'r ffurflen ymateb ar-lein a thrwy'r e-bost.


---

[1] Erthygl 19 o Reoliad 1143/2014 yr UE ar Atal a Rheoli Cyflwyniad a Lledaeniad Rhywogaethau Estron Goresgynnol

## 2.0 TROSOLWG AR YR YMATEBION

Daeth 36 ymateb i law. O'u plith, roedd 58% yn deillio o Gymru, 28% yn deillio o weddill y DU, ac 14% heb nodi eu lleoliad. Ni ddaeth unrhyw ymatebion Cymraeg i law.

Ffigur 1 – Braslun o'r ymatebion yn ôl lleoliad




Bu i 69% o'r ymatebwyr ymateb gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein.
Bu i 31% o'r ymatebwyr ymateb drwy anfon e-bost i'r blwch e-bost Polisi Coedwigaeth.


Tabl 1 – Braslun o'r ymatebion a ddaeth i law fesul sector

| **Sefydliad** | **Nifer yr ymatebion** | **% o'r holl ymatebion** |
|---|---|---|
| Coedwigaeth a thirfeddianwyr | 4 | 11 |
| Diogelu'r wiwer goch | 4 | 11 |
| Lles anifeiliaid | 4 | 11 |
| Cyrff cyhoeddus, awdurdodau lleol ac academyddion | 3 | 8 |
| Buddiannau saethu | 2 | 6 |
| Unigolion | 19 | 53 |
| **Cyfanswm** | **36** | **100** |

Cafodd yr ymatebion a oedd yn enwi sefydliad penodol eu dyrannu i wahanol sectorau. Mae Tabl 1 yn dangos braslun o'r ymatebion fesul sector. Nid oedd 53% o'r ymatebwyr wedi darparu'r wybodaeth hon ac fe'u cofnodwyd fel unigolion, ond gallai'r ymatebwyr hyn fod yn perthyn i unrhyw un o'r sectorau a restrir.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys deg cwestiwn i gyd. Roedd saith o'r cwestiynau'n gofyn am ateb ydw / nac ydw, gan ofyn i'r ymatebwyr roi rheswm dros eu hateb, fel y dangosir yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2 – Trosolwg ar gwestiynau 1-7




**2.1 – Crynodeb o'r prif bwyntiau**

Mae'n ymddangos mai'r rhain yw prif bwyntiau'r ymatebion a ddaeth i law:-

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynllun a'r camau a gynigir ynddo. Roeddent hefyd yn cefnogi addasu Fforwm Gwiwerod Cymru er mwyn iddo weithredu fel grŵp llywio i gydgysylltu'r broses o roi'r cynllun ar waith.

- Er mai lleiafrif oeddent, bu i'r rheini sy'n gwrthwynebu'r cynllun ganolbwyntio ar wrthwynebu unrhyw gamau i reoli poblogaethau'r wiwer lwyd, yn enwedig drwy ddulliau angheuol. Galwyd am ddarparu cyllid i wneud mwy o ymchwil i ddulliau rheoli nad ydynt yn angheuol.

- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r categorïau a amlinellwyd i'w blaenoriaethu, yn enwedig diogelu'r wiwer goch. Fodd bynnag, nodwyd bod y categorïau gyda'i gilydd yn cyfrif am gyfran fawr o goetiroedd Cymru.

- Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi mynd ati ar y cyd i reoli'r wiwer lwyd ar raddfa tirwedd, ond byddai angen cymorth ariannol i wneud hyn. Roedd cymorth ariannol yn fwy effeithiol pan oedd yn cael ei ddefnyddio ar sail gydweithredol.

- Cafwyd cefnogaeth gref ar gyfer hyfforddiant arferion gorau i sicrhau nad yw'r dulliau a ddefnyddir i reoli'r wiwer lwyd yn greulon.

## 3.0 DADANSODDIAD O'R YMATEBION

**Cwestiwn 1** – Oherwydd prinder adnoddau, mae angen targedu'r gwaith o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd. Nid yw'r categorïau a restrir ar dudalen 17 o'r ddogfen ymgynghori wedi eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth oherwydd y bydd hynny'n dibynnu ar amcanion tirfeddianwyr a grwpiau lleol. Fodd bynnag, o dynnu sylw at y categorïau i'w targedu, mae'n helpu i danlinellu eu pwysigrwydd, ac fe allai osod sylfaen ar gyfer targedu pellach yn y dyfodol.
Ydych chi'n cytuno â'r categorïau hyn? Rhowch reswm dros eich ateb.

| **Cwestiwn 1** - braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 21 | 58% |
| Nac ydw | 11 | 31% |
| Dim ymateb | 4 | 11% |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Roedd 58% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r categorïau a gynigiwyd i'w blaenoriaethu, ac yn cytuno bod angen dull strategol wedi'i dargedu. Roedd y categorïau hefyd yn darparu fframwaith y gallai arianwyr posibl ei ddefnyddio i asesu prosiectau, gan ryddhau arian ar gyfer meysydd sy'n fwy o flaenoriaeth. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gefnogol o gamau i warchod poblogaethau'r wiwer goch yng Nghymru, ond mynegwyd pryderon na ddylai unrhyw fesurau atal y gwaith o adfer planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol nac effeithio ar y cydbwysedd rhwng coed brodorol a choed anfrodorol ym mhrif ardaloedd y wiwer goch. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod y testun mewn cromfachau yn y categori cynhyrchu pren yn awgrymu y byddai poblogaethau'r wiwer lwyd yn cael eu cynnal mewn nodweddion eraill. Y bwriad oedd y dylai'r categori hwn gynnwys nodweddion eraill sy'n *llochesu* poblogaethau'r wiwer lwyd. Byddwn yn newid y testun yn y diagram i sicrhau bod hyn yn glir.

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o bryder bod y categorïau gyda'i gilydd yn cwmpasu cyfran fawr o adnoddau'r coetiroedd. Roedd y categorïau ehangach, fel coetiroedd lled-naturiol hynafol a choetiroedd masnachol sy'n agored i niwed, wedi'u gwasgaru'n eang, felly byddai'n anoddach eu gwarchod rhag difrod gan y wiwer lwyd. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai adolygiad a gynhelir bob pum mlynedd i bennu'r camau a gymerwyd, y gofynion ariannol, a'r swyddogaethau a chyfrifoldebau yn y dyfodol, ynghyd ag asesiad o'r fforddiadwyedd o'i gymharu â'r buddion, yn helpu i asesu llwyddiant y blaenoriaethau hyn.

Roedd 31% yn anghytuno â'r categorïau a restrwyd am wahanol resymau. Nid oedd un o'r ymatebwyr yn teimlo bod y categorïau'n cynnwys camau i atal y wiwer lwyd rhag lledaenu i ardaloedd lle cafodd y wiwer lwyd ei dileu, ac felly nad oedd ond yn bodloni rhwymedigaethau'r Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn rhannol. Roedd ymatebwr arall yn tybio y dylid pennu'r nod o ddileu'r wiwer lwyd yn llwyr, yn hytrach na defnyddio dull wedi'i dargedu.

Roedd gweddill yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn yn anghytuno oherwydd eu bod yn gwrthwynebu lladd y wiwer lwyd. Darparodd Animal Aid bapur atodol a oedd yn dadlau'n gryf nad oedd yn tybio bod yr achos yn erbyn y wiwer lwyd yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn, economeg na thosturi. Roedd sylwadau chwe ymatebwr arall yn adlewyrchu'r farn hon.

Mynegodd yr RSPCA bryderon ynghylch sut y câi'r cynllun gweithredu ei roi ar waith, gan nodi bod ar unrhyw raglen reoli angen amcanion clir a bod angen cytuno ar y nod terfynol ar y cychwyn i sicrhau nad yw'r gwaith rheoli'n parhau am gyfnod amhenodol.

Barn Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y categorïau a restrwyd i dargedu'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd ac rydym yn cydnabod bod y categorïau hyn yn weddol eang. Maent yn adlewyrchu effaith y wiwer lwyd ar amryw o gynefinoedd coetir, ac maent yn berthnasol i amcanion y cynllun. Perchnogion sy'n gyfrifol am benderfynu rheoli poblogaethau'r wiwer lwyd a bydd eu penderfyniad yn dibynnu ar yr amcanion ar gyfer y coetir o dan sylw. Fodd bynnag, dylai'r categorïau eang sicrhau bod modd cydweithio ar draws nifer o flaenoriaethau mewn ardal benodol. Gallwn ailasesu'r rhain pan fyddwn yn adolygu'r cynllun gweithredu ymhen pum mlynedd.

Mae erthyglau 16 ac 17 o'r Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn ymwneud â chanfod rhywogaethau sy'n destun pryder i'r Undeb yn gynnar a'u dileu, a'r rheini'n rhywogaethau newydd neu'n rhywogaethau a ddilëwyd yn flaenorol o Aelod-wladwriaeth. Mae'r wiwer lwyd wedi ymsefydlu a lledaenu ar draws rhan helaeth o Gymru ac mae erthygl 19 o'r Rheoliad yn berthnasol iddi. Yn unol â'r erthygl hon, mae'n ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gymryd camau rheoli effeithiol a chymesur i ddileu'r rhywogaethau a restrir, eu rheoli neu eu hatal rhag lledaenu. Rydym yn credu bod y cynllun gweithredu hwn yn helpu i ateb y gofyniad hwn yng Nghymru.

Mae'r cynllun gweithredu i reoli'r wiwer lwyd yn seiliedig ar amryw o ffynonellau ymchwil a gwybodaeth fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, ac mae'n amlinellu'r dystiolaeth sydd ar gael o effaith y wiwer lwyd ar yr amgylchedd. Seiliwyd y cynllun ar y dystiolaeth hon er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Rheoliad a'r ymrwymiad a geir yn strategaeth Coetiroedd i Gymru.

**Cwestiwn 2** – Byddai modd llunio map o'r ardaloedd coediog yng Nghymru sy'n dangos pa mor agored i niwed y mae pob ardal i helpu i ddangos lle y gellir targedu gwaith cydweithredol i reoli'r wiwer lwyd.
Ydych chi'n credu y byddai'r offeryn hwn yn hwyluso'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd drwy ddull cydweithredol wedi'i dargedu? Rhowch fanylion unrhyw ddulliau eraill wedi'u targedu.

| **Cwestiwn 2** - braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 18 | 50 |
| Nac ydw | 13 | 36 |
| Dim ymateb | 5 | 14 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Roedd 50% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gael map sy'n dangos coedwigoedd sy'n agored i niwed. Roeddent yn tybio y byddai'n offeryn defnyddiol i bennu mannau lle byddai modd targedu gwaith rheoli cydweithredol ar raddfa tirwedd, gan leihau'r perygl o wasgaru drwy i wiwerod ifanc symud i mewn i ddisodli'r rheini a gollwyd.

Pe bai'r map ar gael yn gyhoeddus, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y gallai gymell tirfeddianwyr i weithredu, yn enwedig mewn perthynas â choetiroedd aeddfed sy'n gweithredu fel cronfeydd ar gyfer y wiwer lwyd. Tynnodd rhai o'r ymatebwyr sylw at yr angen i lunio'r map ochr yn ochr â'r "haenau" eraill a nodir yn y categorïau sy'n flaenoriaeth, fel prif ardaloedd y wiwer goch, safleoedd dynodedig a phlanhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol. Byddai hyn yn tynnu sylw'r rheini sy'n llunio prosiectau posibl at ffactorau neu gyfyngiadau eraill, a byddai hefyd yn rhoi syniad i arianwyr o flaenoriaeth prosiectau mewn cyd-destun cenedlaethol.

Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu bod y map yn debygol o bennu ardaloedd mawr o goetiroedd â risg uchel, ac na fyddai digon o adnoddau ar gael i gefnogi mentrau ar raddfa tirwedd. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai modd dileu'r ardaloedd â'r flaenoriaeth isaf. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai ardaloedd neu grwpiau arloesol a fyddai'n barod i gydweithio gael eu hepgor o'r broses cymorth ariannol oherwydd nad ydynt yn gweithredu mewn ardaloedd risg uchel / blaenoriaeth uchel. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd na ddylai'r map atal grwpiau rhag gweithio mewn ardaloedd eraill os oes modd iddynt gydweithio.

O blith y 31% a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd un o'r ymatebwyr yn pryderu na fyddai'r map ond yn canolbwyntio ar rywogaethau ac oedran coed, er bod difrod gan wiwerod yn fater mwy cymhleth. Dywedodd yr RSPCA y byddai'r angen am fap o'r fath yn dibynnu ar amcanion terfynol y prosiect, gan ddweud y gallai hynny fod yn anodd o ystyried natur hirdymor y gwaith o reoli'r wiwer lwyd. Nid oedd eraill yn teimlo bod y map yn berthnasol gan fod pob coetir llydanddail yn agored i niwed erbyn hyn neu fod dileu'r wiwer lwyd yn hanfodol.

Bu i nifer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno ailadrodd eu bod yn gwrthwynebu lladd y wiwer lwyd, gan ddweud eu bod yn tybio bod y cynigion i lunio'r map yn seiliedig ar fuddiannau'r rhanddeiliaid yn hytrach nag ymchwil wyddonol. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y costau a'r adnoddau a fyddai ynghlwm wrth lunio'r map a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol.

<u>Barn Llywodraeth Cymru</u>
Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer map o'r ardaloedd sy'n agored i niwed a'r awgrymiadau y dylid cynnwys haenau ychwanegol ynddo i ddarparu mwy o wybodaeth. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon o ran ei ddefnyddio. Y nod fyddai i'r map ddangos clystyrau o goedwigoedd sy'n agored i niwed lle byddai modd targedu gwaith cydweithredol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn atal grŵp ag amcanion cyffredin rhag cydweithio mewn mannau eraill. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn glir yn y cynllun gweithredu.

**Cwestiwn 3** – Mae camau gweithredu drafft 3) a 4) yn ymwneud â darparu cymorth a chymhellion mewn cynlluniau grant yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar waith cydweithredol. Ydych chi'n cytuno y dylai'r cymorth, os bydd ar gael, ganolbwyntio ar ddull strategol a chydweithredol o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd? Eglurwch eich ateb.

| **Cwestiwn 3** - braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 22 | 61 |
| Nac ydw | 9 | 25 |
| Dim ymateb | 5 | 14 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Roedd y rheini a oedd yn cytuno'n tybio bod angen cydweithio ar raddfa tirwedd er mwyn i'r gwaith fod yn effeithiol, ac roeddent yn tybio y dylai pob rhanddeiliad (preifat a chyhoeddus), gan gynnwys y gymuned ehangach, fod yn rhan o'r gwaith i leihau gwasgariad y wiwer lwyd o fannau eraill. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo y byddai angen cymorth ariannol i gefnogi dull cydweithredol o weithio ac y byddai'r cymorth hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n well ar y sail honno na phe bai'n cael ei roi i unigolion.

Tynnodd Ymddiriedolaethau Natur Cymru sylw at y posibilrwydd o golli'r buddion a gafwyd o reoli'r wiwer lwyd dros y blynyddoedd mewn ardaloedd pwysig, fel prif ardaloedd y wiwer goch, oherwydd y bwlch ariannu sy'n deillio o ddiffyg cymorth gan y cynllun Glastir - Rheoli Coetir. Bu iddynt alw am fynd i'r afael â'r mater ar fyrder.

Gwnaeth yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau i'w hystyried wrth lunio cynllun rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol:-

- Yn y dyfodol, dylid seilio cymorth rheoli tir ar y ddadl arian cyhoeddus ar gyfer budd cyhoeddus, fel darparu rhyw gymaint o gymorth i sefydlu ac i gynnal dull cydweithredol o gyflawni budd cyhoeddus e.e. cynhyrchu pren neu ddiogelu'r wiwer goch.
- O ran cynlluniau grant yn y dyfodol i gefnogi'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd er mwyn cynhyrchu pren, dylai fod yn ofynnol ymrwymo i reoli'r coetir hyd nes bod y cnwd terfynol yn barod i sicrhau bod pren o ansawdd uchel yn cael ei gynhyrchu.
- Dylid ariannu swyddogion prosiect i hwyluso gwaith cydweithredol.
- Mae angen dull o hwyluso camau cydgysylltiedig ar draws ardaloedd cydweithredol, er enghraifft, dylai fod modd cyflogi unigolion i reoli'r wiwer lwyd ar ran grŵp, yn hytrach na bod rhaid i dirfeddianwyr unigol drefnu contractwyr a darparu tystiolaeth eu bod yn rheoli'r wiwer lwyd.
- Gallai cynlluniau cymorth ddarparu cymorth ymarferol neu gymorth ariannol, yn ogystal â chyfleoedd i rannu offer ac i gael hyfforddiant, a hynny er mwyn cymell tirfeddianwyr i gymryd rhan ynddynt.
- Gallai safleoedd unigol nad ydynt o reidrwydd yn gymwys i gael cyllid elwa o gael mathau eraill o gymorth, fel cyngor ac arweiniad.
- Ni ddylid atal mentrau tirfeddianwyr unigol sydd fel arall yn bodloni'r profion angenrheidiol rhag cael cymorth e.e. gall ystadau mawr gael effaith fawr mewn ardal.
- Mae angen dull deddfwriaethol o orfodi camau i reoli'r wiwer lwyd mewn achosion lle mae mentrau cydweithredol yn cael eu tanseilio gan berchnogion coetiroedd unigol nad ydynt yn cydymffurfio.
- Mae angen asesu effeithiolrwydd prosiectau ac, ochr yn ochr â hynny, dylai fod modd i arianwyr ailddyrannu'r arian os oes angen.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno'n teimlo'n gryf bod lladd gwiwerod llwyd yn wastraff arian oherwydd nad oes fawr ddim tystiolaeth bod rhaglenni difa blaenorol wedi gweithio. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid gwario'r adnoddau ar ddulliau amgen o'u rheoli, fel dulliau atal cenhedlu drwy'r geg a dulliau rheoli coetir i wneud coetiroedd yn llai deniadol i'r wiwer lwyd. Awgrymodd pedwar o'r ymatebwyr y dylid talu iawndal i dirfeddianwyr mewn achosion lle gellir profi bod y gwiwerod wedi achosi difrod, yn hytrach na rhoi arian iddynt eu lladd. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod angen i unrhyw raglen a ariennir ag arian cyhoeddus sy'n cefnogi camau i reoli'r wiwer lwyd fynd i'r afael â phoblogrwydd y wiwer lwyd i osgoi ymateb chwyrn gan y cyhoedd.

<u>Barn Llywodraeth Cymru</u>
Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer gwaith cydweithredol. Rydym yn nodi'r pwyntiau sy'n awgrymu ei bod yn fwy effeithiol darparu cymorth ariannol ar sail grŵp/cydweithredol, a bydd y cynllun gweithredu'n adlewyrchu'r farn hon. Byddwn hefyd yn ystyried yr

awgrymiadau amrywiol a wnaed gan yr ymatebwyr pan fyddwn yn llunio cynllun rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol.

O dalu iawndal i dirfeddianwyr am ddifrod a wnaed gan wiwerod, rydym yn tybio y bydd yn datgymell tirfeddianwyr rhag mynd ati i reoli'r wiwer lwyd, gan arwain at gynnydd yn nifer y gwiwerod llwyd ac at gylch o ddifrod cynyddol i gynefinoedd coetir. Mae ymchwil i ddulliau amgen o reoli'r wiwer lwyd, fel datblygu dulliau atal cenhedlu drwy'r system imiwnedd, yn mynd rhagddi ar lefel y DU.

**Cwestiwn 4** - Oherwydd prinder adnoddau, nid yw'n bosibl nac yn ymarferol rheoli'r wiwer lwyd ar bob rhan o Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae cam gweithredu 5) yn ymwneud â'r gwaith y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd ag ef pan fydd adnoddau'n caniatáu iddo wneud hynny. Ydych chi'n cytuno y dylai ymgymryd â'r gwaith hwn yn yr ardaloedd lle mae'n ymarferol iddo wneud hynny a lle y gall gydweithio â pherchnogion coetiroedd eraill? Isod, rhowch fanylion unrhyw ystyriaethau neu gyfyngiadau eraill o ran pennu ardaloedd i weithredu ynddynt.

| **Cwestiwn 4 -** Braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 19 | 53 |
| Nac ydw | 10 | 28 |
| Dim ymateb | 7 | 19 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn. Roeddent yn cefnogi mynd ati i reoli poblogaethau'r wiwer lwyd drwy bartneriaeth, ac roeddent yn tybio bod prif ardaloedd y wiwer goch yn flaenoriaeth. Tynnodd un o'r ymatebwyr sylw at yr angen i ehangu'r cynnig hwn i gynnwys ymgysylltu â chymunedau lleol, yn enwedig o amgylch ardaloedd trefol. Tybiwyd bod y cynnig yn gyfle i rannu costau ac arferion gorau, ac i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau lleol.

Ychwanegodd rhai o'r ymatebwyr na ddylai hyn rwystro Cyfoeth Naturiol Cymru rhag rheoli'r wiwer lwyd yn ei goedwigoedd ei hun yn unig, p'run a yw tirfeddianwyr cyfagos yn cymryd rhan ai peidio. Gofynnodd un o'r ymatebwyr am i'r hyblygrwydd o ran cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli'r wiwer lwyd gael ei estyn i goetiroedd preifat lle byddai Ystad Goed Llywodraeth Cymru ar ei hennill.

Bu i Gyfoeth Naturiol Cymru ailddatgan ei ymrwymiad i flaenoriaethu'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd er mwyn gwarchod prif ardaloedd y wiwer goch drwy ddull partneriaeth, ond, o ran ardaloedd eraill, ychwanegodd y byddai angen gwneud dadansoddiad o'r costau a'r buddion ac na fyddai'n bosibl gwneud hynny heb ragor o adnoddau.

Roedd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) yn anghytuno â'r cynnig oherwydd ei fod yn cyfyngu ar gwmpas y gwaith o reoli'r wiwer lwyd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at y posibilrwydd o ddefnyddio gwirfoddolwyr i reoli'r wiwer lwyd i leihau costau Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd ymatebwr arall yn teimlo y dylid sicrhau mwy o adnoddau i ddileu'r wiwer lwyd yn llwyr.

Roedd gweddill yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn teimlo bod unrhyw gamau i ladd y wiwer lwyd yn greulon ac yn aneffeithiol, ac y dylid gwario'r arian ar ddulliau amgen o'i rheoli neu ddarparu iawndal i dirfeddianwyr os gellir profi bod y wiwer wedi achosi difrod.

Bu i'r RSPCA ailddatgan bod angen amcanion clir a nod terfynol pendant, ynghyd â sensitifrwydd pan eir ati i reoli'r wiwer lwyd mewn ardaloedd sy'n agored i'r cyhoedd.

Barn Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli mai dim ond adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i reoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru ac mae'n cydnabod nad yw'n bosibl rheoli'r wiwer lwyd ar draws yr ystad gyfan. Dylid ystyried mynd ati i reoli'r wiwer ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru fel rhan o ddull partneriaeth ar raddfa tirwedd lle bo hynny'n ymarferol.

**Cwestiwn 5** - Mae cam gweithredu drafft 8) yn ymwneud â chydweithio i wella'r gwaith sy'n digwydd ar lawr gwlad. Ydych chi'n cytuno? Sut y gellir cyflawni hyn?

| **Cwestiwn 5 -** Braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 24 | 67 |
| Nac ydw | 7 | 19 |
| Dim ymateb | 5 | 14 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cynnig hwn a oedd yn canolbwyntio ar gydweithio i wella'r gwaith o gyflawni camau gweithredu Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch a Chynllun Gweithredu arfaethedig Cymru i Reoli'r Wiwer Lwyd.

Gwnaeth nifer o'r ymatebwyr awgrymiadau o ran sut y gellir cyflawni hyn, gyda nifer yn cefnogi'r camau a ganlyn:-

- Defnyddio rôl rheolwr prosiect i hwyluso cydweithio a chyfathrebu rhwng y rheini sy'n rhan o'r gwaith, i bennu bylchau pwysig o ran rheoli'r wiwer lwyd ac i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. Byddai modd i amryw o sefydliadau gyflawni'r rôl hon.
- Cymorth grant i gefnogi gwaith swyddog prosiect, cydweithio, a grwpiau gwirfoddol sy'n ymwneud â rheoli'r wiwer lwyd.
- Nodwyd y byddai Fforwm Gwiwerod Cymru'n llwyfan defnyddiol i rannu arferion gorau.

Dyma rai o'r awgrymiadau eraill:-

- Dylai dulliau ariannu gydnabod bod grŵp gwirfoddol eisoes yn bartneriaeth o wahanol endidau. Yn aml, caiff grwpiau o'r fath eu hystyried fel un "partner" mewn prosesau gwneud cais am arian lle mae'r pwyslais ar fwy o sefydliadau sy'n "bartneriaid", ni waeth beth fo'r effaith ar y prosiect.
- Mae angen proses ymgysylltu effeithiol er mwyn cydweithio'n ehangach, a hynny drwy raglen codi ymwybyddiaeth sy'n tynnu sylw tirfeddianwyr a rheolwyr at y cyfleoedd i gydweithio a manteision gwneud hynny.
- Rhwydweithio grwpiau sy'n diogelu'r wiwer goch
- Hyrwyddo opsiynau i reoli'r wiwer lwyd a ariennir ag arian grant drwy ddull wedi'i dargedu
- Arweiniad polisi cryf i sicrhau bod cyfleoedd ariannu yn y dyfodol yn hybu cydweithio
- Defnyddio partneriaethau sy'n bodoli eisoes fel modelau ar gyfer partneriaethau newydd i reoli'r wiwer lwyd
- Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a gwirfoddolwyr
- Ymgysylltu â sefydliadau sy'n defnyddio dulliau amgen.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn gwneud hynny'n bennaf ar y sail bod cost lladd y wiwer lwyd yn gwrthbwyso'r manteision, ac nad yw'n gosteffeithiol nac yn gynaliadwy. Tynnodd un o'r ymatebwyr sylw at yr angen i sicrhau bod gan brosiectau rheoli amcanion clir y mae'r rhanddeiliaid yn cytuno arnynt o'r dechrau'n deg.

Barn Llywodraeth Cymru
O ystyried amcanion y ddau gynllun, mae'n anochel bod Cynllun Diogelu'r Wiwer Goch a'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr ymatebwyr o blaid cydweithio, nid dim ond ymhlith y sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli poblogaethau'r wiwer lwyd, ond hefyd drwy ymgysylltu â thirfeddianwyr ehangach. O gydweithio, dylai hefyd helpu i rannu costau'r camau gweithredu ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Bydd yr awgrymiadau a wnaed o ran sut i wireddu gwaith cydweithredol yn ddefnyddiol i osod sylfaen ar gyfer cynllunio dulliau cefnogi a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.

**Cwestiwn 6** - Mae cam gweithredu drafft 10) yn ymwneud â hybu arferion gorau a hyfforddiant, a thynnu sylw at yr angen i asesu'r risg o ddifrod. Ydych chi'n cytuno bod y gweithredoedd hyn yn angenrheidiol i hybu'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd? Sut y gellir gwneud hyn yn effeithiol?

| **Cwestiwn 6** - Braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 22 | 61 |
| Nac ydw | 9 | 25 |
| Dim ymateb | 5 | 14 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cwestiwn hwn. Roeddent yn frwd o blaid darparu mynediad at hyfforddiant arferion gorau o ran technegau rheoli'r wiwer lwyd a lladd heb greulondeb, yn ogystal â mynediad at gymorth parhaus. Roeddent hefyd yn tybio ei bod yn hollbwysig hyrwyddo arferion gorau a hyfforddiant i feithrin ac i gynnal cefnogaeth y cyhoedd. Er y gallai Fforwm Gwiwerod Cymru weithredu fel pwynt cyswllt, dywedodd un o'r ymatebwyr y gallai nifer o fentrau eraill, fel Cyswllt Ffermio, gyfrannu at y gwaith.

Roedd angen i weithredwyr profiadol gael hyfforddiant. O bennu safon benodol neu gwrs hyfforddi penodol, dywedodd un o'r ymatebwyr y byddai'n darparu fframwaith i unigolion sydd eisoes yn ymwneud â'r gwaith i sicrhau eu bod yn defnyddio'r arferion gorau. Dywedodd ymatebwr arall y dylai'r hyfforddiant fod ar gael mewn ardaloedd targed lle mae gwaith cydweithredol yn debygol o ddigwydd neu eisoes yn digwydd. Fodd bynnag, roedd ymatebwr arall yn teimlo bod angen buddsoddi i gydgysylltu'r hyfforddiant er mwyn gwella'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd ar draws ystod ehangach o sectorau a rhanddeiliaid.

Tybiwyd ei bod yn bwysig asesu'r risg o ddifrod i bennu a oes angen rheoli'r wiwer lwyd ai peidio, ond byddai ei phresenoldeb yn un o ardaloedd y wiwer goch yn ddigon i gyfiawnhau gweithredu. Byddai'r asesiad o ddifrod yn dystiolaeth i hybu gweithredu ac i asesu effeithiolrwydd y gwaith o reoli'r wiwer lwyd. Dywedwyd bod angen i'r asesiadau o ddifrod fod yn effeithiol, ond nid yn feichus, oherwydd byddai hynny'n rhwystro perchnogion coetiroedd rhag cymryd rhan. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod nodyn ymarfer Forest Research ynghylch asesu risg yn rhy gymhleth ar gyfer coetiroedd bach, a chyfeiriwyd at "The Grey Squirrel Management Handbook" a gyhoeddwyd gan Fenter Gwiwerod Ewrop sy'n amlinellu dull mwy ymarferol.

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno'n teimlo y dylid rhoi'r gorau i ladd y wiwer lwyd yn llwyr oherwydd ei fod yn greulon ac oherwydd nad yw'n gosteffeithiol. Awgrymodd nifer ohonynt y dylid canolbwyntio ar ddulliau o reoli'r wiwer lwyd nad ydynt yn greulon fel plannu coed sy'n llai agored i ddifrod, darparu atchwanegiadau calsiwm a datblygu dulliau atal cenhedlu. Lle'r oedd yn debygol y byddai'r lladd yn parhau, galwodd Animal Aid am ganolbwyntio ar fod yn dosturiol, gan gynnwys gwahardd lladd gwiwerod yn ystod y tymor magu, gwahardd gwirfoddolwyr rhag saethu anifeiliaid byw, a rhoi'r gorau i ddefnyddio trapiau sbring. O ddarparu hyfforddiant i reoli'r wiwer lwyd, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n annog pobl sy'n mwynhau lladd; roedd eraill yn tybio bod y diwydiant pren yn defnyddio'r gwaith o reoli'r wiwer lwyd fel modd o gael gafael ar arian cyhoeddus.

Barn Llywodraeth Cymru
Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y cam gweithredu hwn, ynghyd â'r awgrymiadau a wnaed. Byddwn yn eu hystyried wrth roi'r cynllun ar waith. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae ymchwil yn mynd rhagddi i ddulliau amgen o reoli'r wiwer lwyd, fel dulliau atal cenhedlu, ac i ymddygiad y wiwer lwyd er mwyn pennu ffyrdd posibl o'i hatal.

**Cwestiwn 7** - Cynigir y byddai modd addasu Fforwm Gwiwerod Cymru yn grŵp llywio er mwyn rhoi’r cynllun ar waith ac osgoi dyblygu gwaith. Ydych chi’n cytuno mai addasu Fforwm Gwiwerod Cymru yn grŵp llywio yw’r ffordd fwyaf priodol o gynorthwyo i roi’r cynllun hwn ar waith? Rhowch resymau dros eich ateb.

| **Cwestiwn 7 -** Braslun | **Nifer** | **%** |
|---|---|---|
| Ydw | 17 | 47 |
| Nac ydw | 11 | 31 |
| Dim ymateb | 8 | 22 |
| Cyfanswm | **36** | **100** |

Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda'r rheini a oedd yn cefnogi'r cynnig yn tynnu sylw at fanteision profiad ac arbenigedd unigolion sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sydd eisoes yn ymwneud â diogelu'r wiwer goch neu reoli'r wiwer lwyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd y byddai angen ehangu'r aelodaeth i gwmpasu amcanion ychwanegol y Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd. Roedd dwy farn wrthgyferbyniol o ran cadeiryddiaeth y fforwm; roedd y naill yn tybio y dylai'r cadeirydd fod yn annibynnol ar y sefydliadau sy'n cael arian cyhoeddus, ac felly y dylai Llywodraeth Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru gadeirio'r Fforwm, ac roedd y llall yn tybio y dylai'r Fforwm barhau i fod yn annibynnol ar y llywodraeth.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd gan y Fforwm unrhyw adnodd na chylch gwaith a gyfansoddwyd, felly byddai'n rhaid iddo chwarae rôl gydgysylltu yn hytrach na bod yn gyfrifol am sicrhau bod amcanion y cynllun yn cael eu cyflawni. Dywedodd ymatebwr arall fod argaeledd a hyd cyfyngedig y cyllid i reoli'r wiwer lwyd yn rhwystr mawr ac mai dim ond budd cyfyngedig y gellir ei gael drwy ymdrech fwy cydgysylltiedig. Bydd yn bwysig mynd ati i gyfathrebu ac i ymgysylltu â'r cyhoedd mewn ffordd strategol, ac awgrymwyd y gallai'r Fforwm fynd ati i ddatblygu hyn.

O ran y rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig, bu iddynt awgrymu y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru arwain y gwaith, y byddai buddiannau amrywiol y Fforwm yn gwanhau'r ymdrech, ac y dylid cyflawni'r gwaith hwn ledled y DU yn hytrach nag yng Nghymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn teimlo bod rheoli'r wiwer lwyd yn dwll du ar gyfer arian cyhoeddus ac na ddylid ei ddefnyddio i ladd gwiwerod llwyd. Roeddent hefyd yn tybio y dylai'r Fforwm ganolbwyntio ar ddulliau llai creulon.

Barn Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig y dylid addasu Fforwm Gwiwerod Cymru er mwyn iddo weithredu fel grŵp llywio i gydgysylltu a chefnogi'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu i Reoli'r Wiwer Lwyd ar waith, ac i roi cyngor ar y broses honno.

**Cwestiwn 8** - Oherwydd nad oes data monitro sylfaenol cywir ar gael ar gyfer poblogaethau'r wiwer lwyd a'r difrod a wneir ganddynt, mae'r cynllun yn cynnig tri dull monitro. Rydym yn awyddus i gael gwybod am ddulliau monitro eraill sydd eisoes yn cael eu defnyddio neu a allai gael eu defnyddio, ond na chyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori. Beth yw'r dulliau hyn a sut y maent yn gweithio?

Ar y cyfan, cytunwyd bod y tri dull monitro a restrwyd yn briodol yn absenoldeb unrhyw ddull mwy cadarn. Tynnodd un o'r ymatebwyr sylw at yr angen i gael dulliau cadarn i amcangyfrif maint poblogaethau'r wiwer lwyd er mwyn pennu amcanion ar gyfer gweithredu, ond roedd yn cydnabod bod hyn yn anodd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r dwysedd yn isel. Nid oedd ymatebwr arall yn teimlo bod y dulliau monitro arfaethedig yn gadarn, ond roedd o'r farn ei bod yn anodd asesu effaith y camau a gymerwyd oherwydd bod y poblogaethau'n amrywio'n naturiol.

Ymhlith y dulliau monitro eraill a awgrymwyd roedd:

- Rhaglen asesu difrod, naill ar sail data'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol neu i'w defnyddio gan y cyhoedd neu dirfeddianwyr i gofnodi difrod. Tybiwyd y byddai modd defnyddio'r fethodoleg ymarferol a geir yn " The Grey Squirrel Management Handbook".
- Asesu camau gweithredu lleol drwy gofnodi data am y gwiwerod llwyd sy'n cael eu trapio, yn enwedig mewn mannau lle darperir cymorth grant.
- Gall fod angen gwneud rhywfaint o ymchwil i ddatblygu opsiynau monitro eraill.
- Dylid monitro dulliau rheoli nad ydynt yn greulon yn hytrach na rhai angheuol.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod y ffaith nad oes data monitro sylfaenol ar gael yn dangos nad yw'r dull rheoli'n seiliedig ar dystiolaeth, nad yw rhaglenni difa blaenorol wedi bod yn effeithiol ac y dylid rhoi'r gorau i unrhyw ddifa ar unwaith.

Barn Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth ar gyfer y tri dull a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori i fonitro hynt y cynllun gweithredu. Bydd yr awgrymiadau a wnaed yn ddefnyddiol i osod sylfaen ar gyfer mesur effeithiolrwydd prosiectau ar lefel leol.

**Cwestiwn 9** - Hoffem gael gwybod eich barn ar yr effaith y byddai'r cynllun gweithredu drafft i reoli'r wiwer lwyd yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Eglurwch hefyd sut yr ydych yn credu y gellir llunio neu newid y cynllun gweithredu drafft i reoli'r wiwer lwyd er mwyn iddo gael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac er mwyn iddo beidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gwnaed nifer o awgrymiadau o ran y Gymraeg, gan gynnwys llunio'r cynllun gweithredu, ac unrhyw ddogfennau neu hyfforddiant a fydd yn deillio ohono, yn ddwyieithog, cefnogi partneriaethau lleol drwy ddarparu hyfforddiant a mentora yn Gymraeg, a pharatoi cynllun gweithredu gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf, yn hytrach na pharatoi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Awgrymodd un o'r ymatebwyr y byddai fersiwn dwyieithog syml o'r cynllun gweithredu'n ddefnyddiol i gymunedau.

Roedd eraill yn teimlo y dylai'r cynllun gweithredu ganolbwyntio ar ddiogelu'r wiwer goch ac ar atal colli cynefinoedd fel neges gadarnhaol o Gymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar reoli'r wiwer lwyd a fyddai'n arwain at gyhoeddusrwydd negyddol i Gymru, yn enwedig ymhlith ymwelwyr. Nid oedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y Gymraeg yn berthnasol i'r cynllun gweithredu.

<u>Barn Llywodraeth Cymru</u>
Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr am eu hawgrymiadau a byddwn yn eu hystyried wrth fynd ati i gyhoeddi'r cynllun gweithredu a'i roi ar waith.

**Cwestiwn 10** - Mae’r cynllun drafft yn amlinellu cyd-destun cynllun gweithredu i reoli’r wiwer lwyd yng Nghymru, ynghyd â’r camau y mae’n angenrheidiol ac yn realistig eu cymryd, yn ein tyb ni, er mwyn gweithredu ar lawr gwlad.
Yn eich tyb chi, a oes unrhyw gamau gweithredu diangen neu unrhyw gamau gweithredu wedi’u hepgor?
A hoffech wneud unrhyw sylwadau eraill?

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynllun yn gyffredinol, gydag un o'r ymatebwyr yn dweud y byddai cytuno ar y cynllun gweithredu yn helpu i roi ffocws i'r drafodaeth ynghylch dulliau o weithredu ac yn codi ymwybyddiaeth ystod ehangach o randdeiliaid. Bu i eraill ailadrodd eu gwrthwynebiad chwyrn i ladd gwiwerod llwyd a'r gwastraff arian cyhoeddus ymddangosiadol sy'n gysylltiedig ag ef.

Dyma rai o'r sylwadau penodol a wnaed gan unigolion:-

- Mae angen strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd, a dylai gynnwys addysg a gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch pam fod angen rheoli'r wiwer lwyd, gan roi esboniadau clir sy'n cael cyhoeddusrwydd eang. Fodd bynnag, o ddemoneiddio'r rhywogaeth, bydd yn achosi problemau lles pan fydd pobl yn mynd i'r afael â'r mater eu hunain. Gallai Fforwm Gwiwerod Cymru lunio taflen wybodaeth sy'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth fel rhan o hyn.
- Yn unol â'r Cyfarwyddebau, dylid sicrhau mai un o brif nodau'r cynllun yw atal y wiwer lwyd rhag mynd i Ynys Môn, eu canfod yno a'u gwaredu oddi yno, a hynny i'w hatal rhag ymsefydlu yno ac ailgytrefu tirwedd lle na cheir gwiwerod llwyd. Tybiwyd bod angen gwneud hyn i fynd i'r afael â gofynion y Gyfarwyddeb o ran canfod rhywogaethau a'u hatal rhag lledaenu.
- Mae angen i'r strategaeth fod yn fwy gwrthrychol, gan sicrhau ei bod yn seiliedig ar ymchwil go iawn ac yn ystyried manteision y wiwer lwyd, fel creu cynefinoedd i infertebratau mewn pren marw, rhoi pleser i'r cyhoedd, a chreu ffynhonnell fwyd gynaliadwy o wiwerod maes i fwytai.
- Mae angen ymrwymiad ariannol gan y Llywodraeth i ddarparu cymorth grant ar gyfer deunyddiau rheoli'r wiwer lwyd fel rhan o ddull cydweithredol a daearyddol strategol. Mae mentrau eraill sy'n cyflenwi trapiau wedi dangos bod y math hwn o gymorth yn effeithiol.

- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar asesu arferion rheoli coetir sy'n dwysáu'r problemau sy'n gysylltiedig â'r wiwer lwyd. Dylid hyrwyddo lleiniau o rywogaethau cymysg gyda chyfran lai o rywogaethau sy'n agored i niwed.
- O roi'r gorau i ddefnyddio bwydwyr yn ardaloedd y wiwer goch, byddai'n lleihau'r achosion o groes-heintio â brech y wiwer.
- Mae angen mwy o arian ar gyfer ymchwil i ddatblygu dulliau rheoli, fel dulliau atal cenhedlu drwy'r system imiwnedd, ac i ddeall effaith y bele ar y wiwer lwyd.
- Dylid defnyddio sgiliau a gwybodaeth rheolwyr tir sydd eisoes yn ymwneud â rheoli'r wiwer lwyd a dylid ystyried cyfraniad y gymuned saethu sy'n saethwyr cymwys wedi'u hyswirio.
- Dylid caniatáu i dirfeddianwyr preifat ymgymryd â gwaith i reoli'r wiwer lwyd ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru lle mae'r ystad honno'n cydffinio â'u tir.
- Mae angen pennu amcanion clir ar ddechrau unrhyw raglen reoli wedi'i thargedu er mwyn cytuno ar ddarlun o lwyddiant a methiant.
- Mae'r cyhoedd yn gwrthwynebu difa ac mae'n debygol o gael effaith negyddol ar dwristiaeth a delwedd Cymru.

Barn Llywodraeth Cymru

Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr am y sylwadau uchod. Mae nifer ohonynt yn awgrymiadau ymarferol a byddant yn helpu i osod sail ar gyfer y broses o roi'r cynllun ar waith. Rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig cael strategaeth gyfathrebu, ac mae'n debygol o fod yn rhan o gamau gweithredu 9 a 10, er ei bod hefyd yn berthnasol i'r cynllun gweithredu ehangach. Fel y nodwyd yng nghwestiwn 1, mae'r wiwer lwyd wedi lledaenu dros ran helaeth o Gymru ac mae erthygl 19 o'r Rheoliad yn berthnasol iddi, gan beri iddi fod yn ofynnol rhoi mesurau rheoli effeithiol a chymesur ar waith. Rydym yn tybio y bydd y cynllun gweithredu hwn, sy'n cynnwys camau i dargedu gwaith ym mhrif ardaloedd y wiwer goch a'r ardaloedd clustogi cyfagos, yn helpu i gyflawni'r gofyniad hwn yng Nghymru.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n seiliedig ar yr ymchwil amrywiol y cyfeiriwyd ati yn y ddogfen. Mae ymchwil yn dal i fynd rhagddi i ddulliau amgen o reoli poblogaethau'r wiwer lwyd, fel dulliau atal cenhedlu drwy'r system imiwnedd. O ddarparu hyfforddiant arferion gorau, bydd yn helpu i sicrhau bod y rheini sy'n ystyried rheoli'r wiwer lwyd yn gwneud hynny gan ddefnyddio dulliau cyfreithlon heb greulondeb. Mae'r wiwer lwyd wedi gwasgaru dros rannau helaeth o Gymru ac, fel y nodir yn amcanion y cynllun gweithredu, nid oes unrhyw fwriad i gyflwyno rhaglen i ddifa'r wiwer lwyd ledled Cymru na'i dileu o Gymru.

## 4.0 Y CAMAU NESAF

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i'r holl ymatebwyr am roi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau'n ofalus ac, fel y nodir uchod, byddant yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu terfynol, yn gosod sylfaen ar gyfer y broses o roi'r cynllun ar waith, neu'n ddefnyddiol pan fyddwn yn mynd ati i lunio ac i ddatblygu cynllun rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol.

- Byddwn yn cwblhau ac yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu.

- Byddwn yn cydweithio ag aelodau Fforwm Gwiwerod Cymru i bwyso a mesur sut i'w addasu er mwyn iddo fod yn grŵp llywio a fydd yn cydgysylltu'r broses o roi'r cynllun ar waith.

**Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebwyr nad oeddent am fod yn ddienw:-**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Dr Craig Shuttleworth | Prifysgol Bangor |
| Becky Hulme | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a Phartneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru |
| Alexander J McSkimming | Unigolyn / Dim sefydliad wedi'i nodi |
| Merryll Hills | Gwirfoddolwr, Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru |
| David Matthews | UK and Eire The Grey Area |
| Alan Bateman | Unigolyn / Dim sefydliad wedi'i nodi |
| Nick Morris | Unigolyn / Dim sefydliad wedi'i nodi |
| Ian Danby | Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain |
| Natalia Doran | Urban Squirrels |
| Rachel Barrat | London Wildlife Protection |
| Jade Emery | Animal Aid |
| Lizzie Wilberforce | Ar ran Ymddiriedolaethau Natur Cymru (Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, Ymddiriedolaeth Natur Maesyfed, Ymddiriedolaeth Natur Brycheiniog, Ymddiriedolaeth Natur Gwent, ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru) |
| Clare Lawson | RSPCA Cymru |
| Philip Davies | Ystad Bodnant |
| Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Frances Winder | Coed Cadw |
| Chris Hugh | Mwmac Ltd |
| Dafydd Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Rachel Evans | Y Gynghrair Cefn Gwlad |